TGAU

3010NA0-1

DYDD GWENER, 12 IONAWR 2024 – BORE

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

PJ*(W24-3010NA0-1-MLP-A4-18)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
**Mae edrych yn ôl ar ein hanes yn gefndir i'r ddwy gerdd.**

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

## Etifeddiaeth

**Cawsom wlad i'w chadw,
darn o dir yn dyst
ein bod wedi mynnu byw.**

**Cawsom genedl o genhedlaeth
i genhedlaeth ac anadlu
ein hanes ni ein hunain.**

**A chawsom iaith, er na cheisiem hi,
oherwydd ei hias oedd yn y pridd eisoes
a'i grym anniddig ar y mynyddoedd.**

**Troesom ein tir yn simneiau tân
a phlannu coed a pheilonau cadarn
lle nad oedd llyn.
Troesom ein cenedl i genhedlu
estroniaid heb ystyr i'w hanes,
gwymon o ddynion heb ddal
tro'r trai.
A throesom iaith yr oesau
yn iaith ein cywilydd ni.**

**Ystyriwch; a oes dihareb
a ddwed y gwirionedd hwn:
Gwerth cynnydd yw gwarth cenedl
a'i hedd yw ei hangau hi.**

**GERALLT LLOYD OWEN**

(Trowch y dudalen)

# '11.12.82'

## (Bob blwyddyn mae cyfarfod yn cael ei gynnal ar Ragfyr 11 i goffáu marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri. Yn 1982, nodwyd saith canrif ers ei farwolaeth ac roedd y bardd yn y cyfarfod hwnnw.)

Daeth saith canrif ynghyd
yn oerfel Cilmeri,
a'r dail yn diferu atgofion:

saith canrif o sôn
am orchestion hen oesau,
a'r dydd yn gymylau gwelwon:

saith canrif o sefyll
ar erchwyn y dibyn,
a'n traed bron *fferru'n eu hunfan:

saith canrif o gyfri'r
colledion yn dawel
ac edrych i'r gorwel yn ddistaw:

aeth saith canrif yn ddistaw
ger carreg Cilmeri,
a'r awel ar rewi llif *Irfon...

(Trowch y dudalen)

**… yna bloeddiodd y baban**
**a thoddi'r gaeafddydd,**
**a chwalu'r distawrwydd,**
**a her canrif newydd yn nychryn ei waedd.**

**IWAN LLWYD**

***fferru – rhewi**
***Irfon – afon ger Cilmeri**

**DIWEDD Y PAPUR**